Undeb a Chyfundeb

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg: Nôl ym Mis Gorffennaf daeth Eglwysi'r Cyfundeb at ei gilydd i ddathlu ac addoli yn Neuadd Ysgol Bro Morgannwg. Ymunodd cynrychiolaeth gref o Eglwys Minny Street â'r dathlu: yn aelodau Babimini, yr Ysgol Sul, PIMS a'r gynulleidfa hŷn. 'Cymod' oedd thema'r addoliad ac 'roedd aelodau *PIMS* wedi bod wrthi yn paratoi dwy 'faner' i'w harddangos ar y llwyfan. Bu Eglwysi'r Cyfundeb, yn eu tro, yn cyfrannu i'r addoliad: cyflwyniad dramatig gan Eglwys y Tabernacl, Efailisaf; eitemau cerddorol gan Dabernaclau Porthcawl, Y Barri a Phenybont-ar-Ogwr, a Bethel, Penarth; myfyrdod ar lafariaid yr wyddor Gymraeg yn canolbwyntio ar emyn Waldo gafwyd o Fethlehem Gwaelod-y garth a bu Eglwys Ebeneser yn sicrhau cerddoriaeth i'n hysgogi i ganu mawl i'r Arglwydd trwy'r emynau.

Aelodau Eglwys Mynydd Seion, Casnewydd oedd yn gyfrifol am gyflwyniad i'r plant a'r ieuenctid, a chafwyd llawer o hwyl yn gwrando, yn gyntaf, ar hanes yr anifeiliaid a'r lliwiau ac yna, wrth sôn am blannu hadau, taflu a dal peli o bob lliw. Eglwys Minny Street oedd yn gyfrifol am arwain y gynulleidfa 'i dawel lwybrau gweddi'. Fe'n hatgoffwyd mewn myfyrdod dwys gan y Gweinidog,

gyda Shani a Connor yn cynorthwyo ar y drymiau, o synau ac erchylltra rhyfel, o'r bywydau a gollir a'r dioddef cymdeithasol a ddaw yn sgil y fath gyflafan. Mewn gweddi o eiriolaeth fe'n harweiniwyd gan Margaret Davies, Mair ac Alun Treharne, ac Eleri Bevan i gofio'r byd a'r teulu dynol 'rydym yn rhan ohono.

Alun Lenny, Swyddog Cyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, oedd y siaradwr gwadd. "*Na ladd*" oedd 'testun' ei anerchiad. Ymdrin yn benodol â rhyfel a rhyfela a wnaeth gan ddefnyddio nifer o 'wynebau' i gyfleu ei neges. Soniodd am ei dad-cu, Charles Lenny a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf; am Harry Patch, "*the Last Fighting Tommy*" a ddywedodd ar ddiwedd ei oes hir - *"War is organised murder. It was not worth one life let alone all the millions.";* am y Cadfridog William Nott, sydd â cherflun iddo ar sgwâr yng Nghaerfyrddin ac a fu'n arwain y lluoedd arfog yn Afghanistan yn 1839-1842; ac am Dean Mead o Gaerfyrddin a laddwyd yn nhiriogaeth Helman yn y rhyfel cyfredol yn Afghanistan. Gofynnodd: sut dylai Cristnogion, sy'n dal heddwch a chymod fel egwyddorion sylfaenol ei ffydd, ymateb i hyn oll?

Taith y Cyfundebau - 21-22 Medi 2011: Ar nos Fercher 21 Medi 2011 teithiodd 22 o Aelodau Minny Street i ymuno â'r gynulleidfa gref oedd wedi dod ynghyd o wahanol Eglwysi'r Cyfundeb i wrando ar gyflwyniad gan Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchedig Ddr Geraint Tudur, ar Yr Undeb ac Annibynwyr Cymru. Prin fod neb wedi gadael heb fod wedi dysgu rhywbeth newydd: cafwyd cipolwg ar sail a hanes ein traddodiad fel Annibynwyr

(sydd wedi goroesi ers sefydlu'r Eglwys Annibynnol gyntaf yn Llanfaches yn 1639); cyflwynwyd amlinelliad addysgiadol o strwythur gweithgarwch yr Eglwys Leol; trafodwyd rôl Diaconiaid ac Ymddiriedolwyr; a soniwyd am chwe gwahanol agwedd Rhaglen Datblygu Annibynwyr Cymru - rhaglen yr ydym ninnau yn Eglwys Minny Street wedi ymrwymo iddi, sydd wedi bod yn sail i drafodaethau ymysg y Diaconiaid ac wedi sicrhau cyd-destun i lawer o'n Gweithgarwch Datblygu yn yr Eglwys eisoes.

Y bore canlynol, cynhaliwyd Astudiaeth Feiblaidd ddifyr ac adeiladol gan y Parchedig Ddr Alun Tudur. Gan symud o'r pwyslais ar adnod, neu damaid o adnod, at arwyddocâd darn cyfan o'r Ysgrythur, arweiniwyd y cwmni a ddaeth ynghyd trwy dri darn o'r Testament Newydd (1 Corinthiaid 12: 4-27; Effesiaid 4: 1-16 a Rhufeiniaid 12: 1-2 a 9-21). Ymdrin y tri darn â Doniau'r Ysbryd; yn benodol, sut mae'r doniau rhyfedd a rhyfeddol rheini yn medru adeiladu'r eglwys yn lleol. Crea'r doniau undod mewn amrywiaeth; hanfod Gweinidogaeth yr Eglwys Leol yw iawn a llawn ddefnyddio doniau lu ei haelodau er clod ac er gogoniant Duw.

Yn ystod y prynhawn cynhaliwyd Seiat Holi o dan lywyddiaeth y Parchedig Ddr R. Alun Evans. Nos Iau, mewn Oedfa Fawl, dychwelwyd i ystyried Reolau'r Bywyd Cristnogol (Rhufeiniaid 12: 9 - 21), a gofynnwyd Beth nesaf? Oedfa o her ac o obaith oedd hon; her wrth ein gwahodd fel eglwysi i ddefnyddio geiriau'r Apostol Paul yn ei Lythyr at yr Eglwys yn Rhufain i fesur hyd a maint ein heglwysi, a gobaith o sylweddoli cymaint y medrwn ei wneud o ddefnyddio'r doniau hynny mae Duw wedi eu rhoi i bob yr un ohonom. Cyfathrebwyd her fawr yr oedfa yn fwyaf effeithiol trwy eiriau cân Swci Boscawen, *Adar y Nefoedd*: "*ma' 'na waith i'w wneud!*""

Rhyfel Afghanistan: Ar ddegfed pen-blwydd cychwyn y rhyfel yn Afghanistan cafwyd datganiad gan Undeb yr Annibynwyr ar anfoesoldeb a gwastraff y rhyfel: *"... mae Cristnogion Cymreig yn galw am ddiwedd i'r ymladd. Mae'r sefyllfa'n dorcalonnus. Cafodd dioddefaint mawr ei achosi i bobl gan farwolaeth cannoedd o filwyr Prydain a miloedd di-ri o bobl Afghanistan,*" meddai'r Parchg Andrew Lenny, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**.** "*Ar adeg o argyfwng economaidd difrifol, mae gwastraffu biliynau o bunnoedd ar ryfela yn beth hollol ddigalon. Fel Cristnogion, rhaid i ni weithio dros heddwch a chymod lle bynnag y ceir gwrthdaro.*" Yn y datganiad geilw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar Lywodraeth Prydain i ddod â'r milwyr adref o Afghanistan cyn gynted â phosibl. Dadl yr Undeb yw y dylai'r arian sy'n cael ei wario ar ryfela cael ei ddargyfeirio i'r Gwasanaeth Iechyd i brynu cyffuriau a meddyginiaethau ar gyfer y cleifion hynny sy'n methu â chael triniaeth ar hyn o bryd oherwydd cost uchel y driniaeth honno.